LLAIS CYMRAEG, ANNIBYNNOL, YR YMGYRCH I GYNNAL Y DDAEAR


# Y Papur Gwyrdd

Rhif 17 Ebrill / Mai 2010 www.ypapurgwyrdd.com PRIS: £1

ADRODDIAD ARBENNIG

## Cymunedau Cymreig sy'n dweud 'Ie!' i ynni adnewyddol awelon a nentydd y bryniau

## Cynhesu Byd-eang



Syr John Houghton yn mynnu ... 'Er y Gwadwyr, mae'r ffeithiau'n dal yn gadarn - a Newid Hinsawdd yn fygythiad mawr'



## Dim Gwanwyn i'n Senedd?

ISSN 1755-3504
04
9 771755 350009

*HEFYD:* CORFF CYNLLUNIO 'PRYDAIN' YN TANSEILIO DEMOCRATIAETH * COLLI IAITH — A'R BOBL 'GYNTEFIG' SY'N CYNNAL EIN BYD * LAMMAS YN CROESAWU * TROI CEFN AR DRYDAN TANWYDDAU CARBON * NEWYDDION YMGYRCH Y DDAEAR O BEDWAR BAN * DAEAR-IADUR GWEITHGARWCH CYNALIADWY

# Y PAPUR GWYRDD

***Llais Cymraeg annibynnol i'r ymgyrch i fynnu parch i'r Ddaear***

**Golygydd**: Hywel Davies
**Cyfeiriad**: 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX
**Ffôn**: 01792 798162
**Ebost**: ypapurgwyrdd1@btinternet.com
**Gwefan**: www.ypapurgwyrdd.com

Cyhoeddir yn ddeufisol ers Awst 2007 gan Hywel a'r Dr Charlotte Davies (cwmni Y Papur Gwyrdd Cyf.)

Argreffir Y Papur Gwyrdd yn llwyr ar bapur wedi'i ailgylchu, gan ddefnyddio inc llysieuol ar 8 o'r 12 tudalen, gan Wasg Morgannwg, Uned 27, Parc Busnes Mynachlog Nedd, Castell-nedd SA10 7DR.




# CYNNWYS


**3** CYNHESU BYD-EANG: Syr John Houghton — Pam na ddylwn wrando ar 'griw bach' y Gwadwyr



**4** GOLYGYDDOL: *Cyfarfod pobl y Ddaear*
*Gweld eisiau'r Ecologist*
*Dathlu Gillian Clarke*

**5** GWAREIDDIAD: Charlotte Davies — Colli Iaith a'r bobl 'gyntefig' sy'n parchu'r Ddaear

**6** PENSAERNIAETH: 'Caledi' ein Senedd yn gwrthod y Gwanwyn?

**Ennill a Cholli**
Hanesion Brwydr y Ddaear

**7** CYNLLUNIO: Gordon James — Yr IPC: Corff newydd sy'n fygythiad i ddemocratiaeth

**8 & 9** CREU'R BYD NEWYDD: Adroddiad Arbennig ar ein cymunedau Cymreig sy'n troi at ffordd werdd o fyw

**10** **Daear-iadur**
Eco-bentref Lammas yn dweud 'Croeso atom!'





**11** **Y byd a'r aelwyd**
**Trydan o danwyddau ffosil?**
**... Nid yn ein tŷ ni, mwyach!**

***MATRESI ORGANIG ABACA , tudalen 12***



# Llais i Gymru
# ... Llais i'r Ddaear



## JILL EVANS

Aelod Seneddol Ewropeaidd
Plaid Cymru

**Swyddfa yng Nghymru**
45 Heol Gelligaled,
Ystrad, Rhondda Cynon Tâf,
CF41 7RQ,
Cymru
T: 01443 441395
Ff: 01443 441395
E: jill.evans@europarl.europa.eu





## Dyfodol naturiol
## — nid difrod glo ac olew

The Greens | EFA in the European Parliament
Y Gwyrddion | CRhE yn y Senedd Ewropeaidd

Plaid
PLAID CYMRU

## Cydnabod natur fregus ein bodolaeth ...

Mae meddwl fel ynys, gan ddychmygu'n byd yn arnofio fel llong mewn môr tragwyddol o ofod, gyda'i phridd a'i dŵr a'i hatmosffer wedi'u trefnu'n fanwl a'u cydbwyso'n ofalus i gynnal bywyd, yn rhoi rhyw ymdeimlad o ffiniau i ni, ynghyd â'r gwyleidd-dra, gobeithio, i gydnabod natur fregus ein bodolaeth.

**Michael Ableman, cylchgrawn Resurgence rhif 259, www.fieldsofplenty.com**

## CYFWELIAD ARBENNIG: SYR JOHN HOUGHTON YN GWRTHOD HONIADAU 'LLEIAFRIF' ...

# 'Er yr amheuon croch, mae gwyddoniaeth Cynhesu Byd-eang yn dal yn rhybudd i ni'

**MEWN cyfweliad arbennig gyda'r *Papur Gwyrdd,* dywedodd y gwyddonydd blaenllaw o Gymro Syr John Houghton nad oedd unrhyw reswm i bobl amau dilysrwydd y wyddoniaeth sy'n sail i'r rhybuddion ynglŷn â chynhesu byd-eang a newid hinsawdd.**

Wrth gyfeirio at y llif o ymosodiadau yn y cyfryngau gan feirniaid cyn ac ers Uwch-gynhadledd Copenhagen, mynnodd Syr John yn gryf iawn o'i gartref yn Aberdyfi fod gwyddoniaeth Cynhesu Byd-eang yn gywir a chadarn.

"Mae Cynhesu Byd-eang yn bwnc hynod ddifrifol," meddai, "Mae'n un o'r pynciau mwyaf difrifol sy'n ein hwynebu fel dynoliaeth.

"Mae Panel Rhynglywodraethol y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd, a bron y cyfan o lywodraethau'r byd, yn cytuno ein bod yn wynebu problem ac yn gytûn ar yr hyn sydd angen ei wneud."

Yn wyneb yr amheuon croch sydd wedi dilyn honiadau am fethiannau ymchwilwyr uned hinsawdd Prifysgol East Anglia, a'r camsyniad yn Adroddiad 2007 y Panel Rhynglywodraethol ynglyn â Rhewlifoedd yr Himalaya, dywedodd Syr John fod seiliau'r wyddoniaeth yn parhau yn fater o gytundeb eang.

"Mae'r cyfan o sefydliadau gwyddonol sylweddol y byd yn cefnogi'r Panel Rhynglywodraethol *[yr IPCC]*," meddai, "Maen nhw wedi gwneud datganiad sy'n gefnogol iawn i'r IPCC — dydyn nhw erioed wedi bod mor unedig ar unrhyw bwnc o'r math hwn."



Syr John Houghton

Dywedodd Syr John y byddai'n "anghyfrifol ac yn hynod hunanol ohonom" i beidio â gweithredu yn wyneb y cyfan rydym yn ei wybod am beryglon posib newid hinsawdd.

"Pobl dlawd y byd sy'n dioddef wrth i lefelau'r môr godi, a sychderau a llifogydd ddigwydd," meddai, "Dyw beth yn union sy'n mynd i ddigwydd ddim yn gwbl glir. Ond mae digon o sicrwydd i fynnu ein bod yn gweithredu i geisio rheoli'r cynhesu.

Fel un sydd wedi cael ei bardduo'n bersonol gan feirniaid, roedd Syr John yn rhybuddio'n gryf i bobl beidio cael eu camarwain ganddynt: "O ran yr amheuwyr," meddai, "does gyda nhw ddim tystiolaeth gadarn i gynnal eu safbwynt. Maen nhw un ai yn cynrychioli *vested interests* neu, yn syml, dydyn nhw ddim yn hoffi gwyddoniaeth."

Mynnodd fod prif wyddonwyr hinsawdd y byd yn gytûn ar y wyddoniaeth — sef bod Cynhesu Byd-eang yn ffaith a bod cyfraniad dynolryw yn ffactor arwyddocaol yn y cynhesu hwnnw. Lleiafrif bach oedd yn gwrthod derbyn hynny.

"Mae'r amheuwyr yn grŵp bychan iawn," meddai Syr John, "Dydyn nhw ddim wedi gwneud eu gwaith cartref. Does ganddyn nhw ddim gwybodaeth o'r maes. Ond maen nhw'n cael eu cynnal gan y cyfryngau."

*► Mae Syr John Houghton yn gyn-Athro Ffiseg yr Atmosffer yn Rhydychen, yn gyn-bennaeth ar Swyddfa Dywydd y DU. Bu'n un o gadeiryddion Panel Newid Hinsawdd y CU.*

## Mae'r dystiolaeth newid hinsawdd yn gadarn ...

**MEWN adroddiad pwysig yng nghyd-destun ymosodiadau gan bobl sy'n gwadu Cynhesu Byd-eang, mae gwyddonwyr hinsawdd Swyddfa Dywydd y Deyrnas Gyfunol wedi datgan bod 100 o astudiaethau gwyddonol yn cadarnhau bod newid hinsawdd bron yn sicr yn ganlyniad i weithgarwch dynol.**

**Meddai pennaeth yr astudiaeth, Peter Stott, "Rwy'n gobeithio bydd pobl yn edrych ar y dystiolaeth ac yn ffurfio'u barn ar sail y dystiolaeth wyddonol." Mae hi'n bosibilrwydd "cynyddol annhebygol", meddai, nad gweithgarwch dynol yw prif ysgogydd newid hinsawdd.**

**Bydd ymchwil y Swyddfa Dywydd yn cadarnhau'r achos yn erbyn amheuwyr sy'n ceisio tanseilio galwadau i leihau allyriadau $CO_2$ trwy honni mai amrywiaethau naturiol digon cyffredin sy'n gyfrifol am newidiadau yn hinsawdd y Ddaear.**

**Roedd llawer o'r astudiaethau – o'r newidiadau yn iâ'r môr, glaw a thymheredd y Ddaear — wedi'u cyhoeddi ers adroddiad diwethaf Panel Rhynglywodraethol Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig.**

GOLYGYDDOL | HYWEL DAVIES



# Er chwerwder yr ymosodiadau, cyfle i bobl y Ddaear dawelu ac atgyfnerthu

**MAE Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi bod yn rhoi arweiniad cryf ar fater y rhybuddion gwyddonol ynghylch Cynhesu Byd-eang a Newid Hinsawdd. O ganlyniad, mae ein gwlad ar flaen y gad ymysg rhanbarthau Ewrop ar y pwnc hwn.**

I raddau helaeth, mae ein dyled am hynny i Jane Davidson AC, sef Gweinidog Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai Cymru. Mae Ms Davidson wedi bod yn glir ei gweledigaeth ac yn ymroddedig ei gweithgarwch ledled Cymru, gan fynnu ymateb ymarferol gennym i'r her i leihau'r allyriadau carbon sy'n



gymaint o fygythiad i'n dyfodol.

Nid rhyfedd, felly, ei bod wedi gweld yr angen — wedi siom Cynhadledd Copenhagen ac ynghanol ymgyrch chwerw y Gwadwyr i danseilio gwyddoniaeth Cynhesu Byd-eang — i alw ynghyd ymgyrchwyr Cymreig y Ddaear i drafod y sefyllfa. Yn ein Senedd genedlaethol y digwyddodd hynny, ar noson dywyll yn y mis bach.

Profodd yn noson hollbwysig, noson i ddal y rhengoedd yn gadarn yn wyneb yr hyn sy'n ymosodiad pwerus, gwenwynig a phersonol. Does neb yn gwybod hynny'n well na'r Athro Syr John Houghton a gafodd ei bardduo gan un o brif arweinwyr ymgyrch yr Amheuwyr, ond a gafodd ymddiheuriad am hynny. Rydym yn falch iddo fynegi ei ymateb i'r Amheuwyr yn **Y Papur Gwyrdd** (tud 3).

Atgoffodd Ms Davidson y gynulleidfa fod cryfder gwyddoniaeth Cynhesu Byd-eang a Newid Hinsawdd yn cael ei dderbyn gan brif sefydliadau ymchwil a llywodraethau ledled y byd. O'i phrofiad personol, roedd yr Amheuwyr yng Nghymru — fel mewn mannau eraill — yn defnyddio ffeithiau honedig nad oedd ganddynt sail wirioneddol. Yr her, felly, oedd bwrw ymlaen gyda'r gwaith o dorri ar yr allyriadau, gyda'r pedair plaid wleidyddol yn y Cynulliad Cenedlaethol eisoes yn derbyn yr angen i dorri 40% erbyn 2020. A chymryd pob cyfle i gyflwyno'r gwir ffeithiau gwyddonol i bobl.

Roedd gan Ms Davidson ddau siaradwr grymus arall yn rhannu'r llwyfan gyda hi. Galwodd pennaeth Oxfam Cymru, Julian Rosser, ar y mudiad amgylcheddol i ail-ymgynnull ar fyrder gan gofio bod newid hinsawdd yn cael ei achosi gan bobl gyfoethog ond yn achosi dioddefaint i bobl dlawd. Rhaid oedd tyfu'r mudiad yng Nghymru, meddai, a rhaid oedd codi ein targed o doriadau yn fwy eto.

Y siaradwr arall oedd Paul Allen, un o gewri'r Ganolfan Dechnoleg Amgen yng Nghorris. Galwodd ef arnom i geisio tynnu trwch pobl llawr gwlad i ganol yr ymdrech amgylcheddol, i fynegi'n barn yn glir a chryf i'r gwleidyddion ac i'r wasg, ac i roi pwysau ar fusnesau fel cwsmeriaid o blaid y Ddaear. Roedd angen creu cymdeithas ddewr, meddai, fyddai'n gallu wynebu grymoedd y drefn ddinistriol sydd ohoni.

Roedd yn gyfarfod i'w gofio. Nid noson tan siafins mohono. Yn hytrach, cynulliad i dawelu, i atgyfnerthu, i ddeall maint a natur y rhai sy'n tanseilio pwysigrwydd y Ddaear ac i fynnu â'n gilydd y bydd pobl y Ddaear yn fwy na nhw.

## Colli'r Ecologist

UN na fydd gyda ni i ymgyrchu mwyach ar silffoedd y siopau llyfrau yw cylchgrawn yr **Ecologist.** Tristwch mawr, i'n tŷb ni yn **Y Papur Gwyrdd**, oedd penderfyniad y cwmni i ddod â fersiwn bapur y cylchgrawn gwych hwn i ben y llynedd.

Dywed y cwmni eu bod am osgoi achosi mwy o ddinistr i goedwigoedd y byd trwy ddefnyddio papur. Eu penderfyniad, felly, oedd torri nôl i fersiwn electroneg ar y Wê yn unig. Heb os, dyma golled i'r ymgyrch. Mae llawer o gylchgronnau sy'n cynnal y drefn ddinistriol Orllewinol ar gael yn y siopau. Roedd yr **Ecologist** fel gwerddon o ffeithiau dadlennol ac ymresymu call yn eu plith. Roedd yn sicrhau bod lles y Ddaear yn cael llais ynghanol pwyslais y farchnad gyfalafol ar elw tymor byr.

Bydd parhad **Y Papur Gwyrdd** yn fawr o gysur!



Ein gobaith yw bod perchenogion ein siopau Cymraeg yn rhoi cyfle teg ar eu silffoedd i'w lais unigryw, annibynnol, di-gymorthdal, fel bod y Gymraeg yn parhau'n gyfrwng i'r ymgyrch o blaid yr unig gartref planedol sydd gennym.

## Llongyfarch bardd

RYDYM yn falch i gyfeirio at gylchgrawn ecolegol Saesneg arall, sef **Resurgence,** sydd wedi bod mewn bodolaeth ers dros 40 mlynedd ac sy'n parhau ar bapur (wedi'i ail-gylchu). Clywsom am y cyhoeddiad athronyddol a llenyddol hwn yn wreiddiol gan un oedd yn ei edmygu'n fawr, sef Gwynfor Evans.

Yn ei sylwadau yn y Senedd, galwodd Paul Allen ar bobl y celfyddydau yng Nghymru i asio gyda'r mudiad ecolegol. Ar hyn o bryd, meddai, mae ein llenorion a'n hartistiaid mewn cyflwr o Wadiad ar y pwnc.

Un llenor Cymreig sydd ddim yn gwadu pwysigrwydd ein hamgylchedd yw ein Bardd Saesneg Cenedlaethol, Gillian Clarke. Rydym yn ei llongyfarch yn fawr am y cerddi hyfryd, Daear-ol a Chymreig, a gyhoeddir ganddi yn rhifyn cyfredol **Resurgence**.

Ewch ati i holi amdano yn eich llyfrgell leol. Tan yn ddiweddar, byddwn wedi'ch annog i'w brynu yn siopau llyfrau Borders. Ond mae eu drysau caeëdig yn golled arall i fyd argraffu traddodiadol. ☐

‘MODERNEIDDIWCH!’ YW GORCHYMYN Y GORLLEWIN, OND MAE ’NA GRÊD GYNYDDOL BOD DATBLYGIADAU SY’N DINISTRIO DIWYLLIANNAU AC IEITHOEDD TRADDODIADOL YN NIWEIDIOL I’R DDAEAR EI HUN ...

# Colli iaith ... a cholli Daear?

**MAE 2010 yn flwyddyn fio-amrywiaeth y Cenhedloedd Unedig. Ond mae’n fwyfwy amlwg bod gwarchod bio-amrywiaeth yn dibynnu ar barchu a gwarchod amrywiaeth anhygoel ddiwylliannol dynoliaeth, hefyd.**

Mae pobl frodorol yn arbennig o bwysig yn y broses hon, fel mae astudiaeth ddiweddar gan Dr Paul Oldham o Brifysgol Lancaster wedi dangos.

Nhw sy’n byw yn yr ardaloedd mwyaf tyngedfennol i barhad bio-amrywiaeth ar y ddaear. Ac yn wahanol i bobl y gwledydd ‘datblygedig’, maent yn nabod yn drylwyr a manwl eu tiroedd a’r holl rhywogaethau sy’n byw ynddynt.

Ers cenedlaethau mae eu ffyrdd o fyw mewn perthynas agos â natur wedi cyfrannu at gadw rhwydwaith bywyd eu hamgylchedd a’i creaduriaid yn iach. Ac, wrth gwrs, mae eu holl wybodaeth amgylcheddol wedi ei chadw – ac yn cael ei phasio ymlaen i’r genhedlaeth nesaf – trwy eu hieithoedd gwahanol.

Roedd yn dristwch mawr felly i glywed am farwolaeth Boa Sr o Ynysoedd Andaman ym Mae Bengal ar ddechrau’r flwyddyn hon. Menyw yn ei 80au oedd hi – siaradwr olaf yr iaith Bo. Wrth iddi hi farw, diflanodd iaith a diwylliant cwbl unigryw arall oddiar wyneb ein daear.

Roedd Boa Sr yn llawn hiwmor, yn ôl ieithydd oedd yn ei



Erthygl gan y
**DR CHARLOTTE DAVIES**

nabod. Ac yn llawn egni hefyd – roedd hi wedi dringo coeden i ddianc rhag y sunami dim ond ychydig o flynyddoedd ynghynt. Ond roedd hi hefyd yn unig iawn, gan nad oedd neb iddi siarad gyda nhw yn ei mam-iaith.

Roedd clywed amdani yn f’atgoffa ar unwaith am y portread hunllefus hwnnw yn ail stori **Wythnos yng Nghymru Fydd** gan Islwyn Ffowc Elis, o’r hen wraig olaf i siarad yr iaith Gymraeg rhywbryd yn y dyfodol.

Dyw ofnau Islwyn Ffowc Elis ddim wedi cael eu gwireddu, eto. I’r gwrthwyneb, mae’r Gymraeg yn cael ei hystyried yn llwyddiant ymhlith ieithoedd lleiafrifol, iaith sy’n cael ei hachub. Ond, wrth i rywun feddwl am yr holl amheuon ac ofnau ac angen gweithredu i gadw’r iaith Gymraeg yn iaith gymunedol fyw, mae’n tanlinellu sefyllfa bregus cymaint o ieithoedd eraill – a’n hatgoffa am yr ‘hen ieithoedd diflanedig’, chwedl Waldo, sydd eisoes wedi’u colli.

Amcangyfrifir bod rhwng 6,000 a 7,000 o ieithoedd ledled y byd – ond mae basdata UNESCO yn nodi bod 2,500 ohonynt mewn perygl, 199 gyda llai na 10 o siaradwyr. Mae ieithyddion yn ofni y bydd hanner ieithoedd y byd yn diflannu yn ystod y ganrif hon.

Byddai hyn yn golled drychinebus i ni i gyd – ac i’n planed. Roedd marwolaeth Boa Sr, er enghraifft, wedi torri cysylltiad trwy’r iaith Bo gydag olyniaeth ddynol yn ne-ddwyrain Asia oedd yn dyddio nôl rhyw 65,000 o flynyddoedd i’r oes cyn-Neolithig.

Roedd Bo yn un o 10 iaith ar Ynysoedd Andaman sy’n gwbl unigryw yn yr ystyr nad ydynt yn perthyn i unrhyw iaith arall ar y ddaear. A’r tristwch yw bod pob un mewn perygl.

Enghraifft arall o bwysig-rwydd gwarchod diwylliannau brodorol yw’r pwysau sydd ar fugeiliaid gwartheg nomadig yr Is-Sahara, er enghraifft y *Tuareg*, y *Fulani* a’r *Maasai [**Guardian,** 8 Chwefror 2010].*

Mae eu ffordd o fyw dan fygythiad gan lywodraethau sy’n cefnogi ffermydd mawr ar y model Gorllewinol. O ganlyniad, mae’r nomadiaid yn cael trafferth symud eu gwartheg ar hyd y wlad i ddod o hyd i borfa a dŵr.

Ond mae adroddiad diweddar wedi dangos bod y nomadiaid hyn yn fwy gwydn yn wyneb newid hinsawdd na’r ffermwyr mawr. Maent yn well, hefyd, am fyw’n gytun gyda bywyd gwyllt, ac yn fwy effeithiol wrth gynhyrchu cig o ansawdd gwell na ffermydd mawr ‘modern’ America ac Awstralia.

Mae’r amrywiaeth enfawr o ddiwylliannau’r Ddaear yn drysorfa. Rhaid i ni eu gwarchod. Ac mae ceisio gwneud hyn yn rhan ganolog o’r ymgyrch ecolegol i warchod ein cartref planedol. ☐

***Adroddiad Dr Paul Oldham:** www.cesagen.lancs.ac.uk

Peidiwch â’i malu — mae planedau da’n anodd dod o hyd iddyn nhw.

Dyfyniad yn *Time*

GWEFAN
Y PAPUR GWYRDD
Y Porth Cymraeg i’r mudiad i Warchod y Ddaear — ein cartref planedol rhyfeddol
www.ypapurgwyrdd.com

DIM LLE I'R BYD NATURIOL YN "NHIRWEDD GALED" EIN SENEDD ...

# Oes gobaith croesawu'r Gwanwyn i Fae Caerdydd?



**Senedd Cymru — ynghanol 'diffeithwch di-fywyd a gwrth-natur'**

**ER ein balchder yn adeilad y Senedd cenedlaethol a Chanolfan y Mileniwm ym Mae Caerdydd, onid y gwir yw mai diffeithwch di-fywyd a gwrth-natur yw'r ardal?**

Mae Cymru'n mwynhau Gwanwyn hyfryd byd natur eto eleni, ond does dim lle iddo ar slabiau, creigiau a llechi caled y Bae.

Oes, mae ychydig o goed yno a'u dail yn blaguro. Ond onid trueiniaid prin ydynt, wedi cael caniatad biwrocrataidd i sefyll yn eu cylchoedd bychain, penodedig yn lle cael croeso a chofleidiad gwresog gan rai sy'n eu caru?

Mae'r Senedd a'r Ganolfan yn adeiladau o gymeriad a statws penseirniol sydd wedi denu clod ac edmygedd eang i'r Gymru newydd.

Enillodd Senedd Richard Rogers wobrau gan y Sefydliad Ymchwil Adeiladu a'r Ymddiriedolaeth Ddinesig.

Yn benodol, croesawyd ei lwyddiant wrth gynllunio adeilad sy'n wych o gynaliadwy ac sy'n symbol o dryloywder gwleidyddol — a hynny am bris mor fychan.

Ond, onid adeiladau ydynt, hefyd, sy'n eistedd ar y Ddaear gan ei chuddio heb ei chydnabod na'i pharchu?

Yn wir, canmolwyd hyn gan yr Ymddiriedolaeth Ddinesig: "Mae'r tirwedd caled yn ymestyn i adeiladau cyfagos, gan gysylltu'r prosiect a gweddill yr ardal."

Wrth i'r pla cyfoes ymledu o osod slabiau a choncrit dros erddi a lawntiau o flaen cymaint o gartrefi, beth am i aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried sut y gellir trefnu croeso i goed, llwyni a blodau i'r Bae.

Byddai'n rhoi arweiniad i weddill y genedl barchu'r Ddaear; byddai'n gymorth i sicrhau bod yr amgylchedd yn rhan ganolog o'r holl drafodaethau; a byddai'n symbol o bwysigrwydd byd natur i galon y genedl.

## ENNILL A CHOLLI YM MRWYDR Y DDAEAR

Pigion amrywiol 2 fis

### EGLWYS v CWMNI

YM mis Chwefror, cyhoeddodd Eglwys Loegr eu bod yn dadfuddsoddi gwerth £3miliwn yng nghwmni Vedanta Resources fel protest yn erbyn cynlluniau'r cwmni yn India. Fel y nodwyd yn **Y Papur Gwyrdd** eisoes, bwriad Vedanta Resources o Lundain yw cloddio am bauxite i ehangu eu gwaith alwminiwm yn nhalaith Orissa. Bydd y prosiect yn chwalu Bryniau Niyamgiri sy'n sanctaidd i bobl frodorol y Donghria Kondh, yn difetha eu ffordd o fyw ac yn dinistrio'r amgylchedd. Penderfynodd Eglwys Loegr nad oedd gan Vedanta unrhyw fwriad i barchu'r amgylchedd na'r gymuned leol.

### MÔR LLYCHLYN

GYDA gwaith adeiladu i ddechrau ar fyrder, mae grwpiau amgylcheddol wedi lansio tair her gyfreithiol yn erbyn cynllun i osod pibell nwy ar hyd gwaelod Môr Llychlyn. Rwsia a'r Almaen sydd a'r bwriad i greu'r bibell ar gost o 7.4 miliwn Ewro ac mae'r protestiadau cyfreithiol wedi cael eu cyflwyno yn llysoedd yr Almaen, Ffindir a Denmarc. Mae'r grwpiau'n dadlau y bydd y prosiect yn achosi niwed difrifol i ecosystemau naturiol sydd eisoes dan bwysau ac nad yw Rwsia na'r Almaen wedi poeni i gynnal astudiaeth o'r effeithiau.

### E-WASTRAFF

MAE'R Cenhedloedd Unedig wedi rhybuddio India a gwledydd yn Affrica ynglŷn â'r ffordd maen nhw'n anwybyddu twf enfawr y gwastraff o offer trydanol megis ffonau symudol a chyfrifiaduron. Mae'r CU yn datgan bod angen i wledydd fel India, Uganda a Senegal ddatblygu mesurau ail-gylchu effeithiol os oes gobaith rheoli bryniau gwenwynig o e-wastraff. Mae cwmnïau o'r Gorllewin yn dympio hen offer yno, ond mae cynnydd mawr yng ngwerthiannau ffonau symudol ac ati yn y gwledydd hyn, hefyd.

### OLEW EQUADOR

ERS tair blynedd, mae Llywodraeth Equador wedi cytuno i atal cwmnïau rhag sugno olew o gronfeydd dan goedwig law Yasuni (fel y cyfeiriwyd ato yn **Y Papur Gwyrdd**). Gwnaed hyn o ganlyniad i ymgyrchoedd gan bobloedd brodorol ac amgylcheddwyr. Roedd llwyddiant y cynllun unigryw yn dibynnu ar gymorth ariannol gan y gymuned ryngwladol. Bellach, mae'r Arlywydd Rafael Correa yn bygwth rhyddhau'r cronfeydd olew i gorfforaethau cyfalafol gan fygwth dinistrio'r amgylchedd a bywydau pobl. Mwy o wybodaeth: http://www.rainforest-rescue.org/index.php

### HELFA WRACHOD

MAE'R Seneddwr Gweriniaethol Americanaidd James Inofe wedi galw am ymchwiliadau troseddol i wyddonwyr sydd wedi cyfrannu at astudiaethau hinsawdd y Cenhedloedd Unedig. Mae Inofe yn gwadu Cynhesu Byd-eang. Wedi iddo enwi 17 o wyddonwyr yn benodol, cafodd ef ei hun ei gyhuddo o arwain *'McCarthy-ite Witch-hunt.'*

### FFERMYDD CIWBA

MAE Ciwba'n bwriadu creu miloedd o ffermydd organig o gwmpas dinasoedd y wlad.

# Beicio o Ferthyr i Mayo i atal difrod nwy



MAE mudiad gweithredu Climate Camp Cymru yn bwriadu trefnu taith feiciau i greu cwlwm Celtaidd o blaid gwarchod y Ddaear rhwng dwy gymuned yng Nghymru a Gweriniaeth Iwerddon sydd dan ymosodiad gan gwmnïau tanwyddau ffosil.

Bydd y daith bythefnos (o 21 Mai i 5 Mehefin) yn cychwyn o safle glo brig mwyaf Ewrop — sef Ffos-y-fran, ar y llethrau uwch tref Merthyr Tudful, lle cynhaliwyd Gwersyll Hinsawdd Cymru'r llynedd.

Bydd y beicwyr yn teithio i bentref Rossport, Swydd Mayo yn y Gaeltacht yng ngogledd orllewin Iwerddon. Dyma'r pentref a'r ardal sydd wedi bod yn gwrthwynebu bwriad cwmni olew a nwy Shell a Llywodraeth Iwerddon i godi glanfa a phurfa nwy enfawr gan fygwth amgylchedd yr arfordir hyfryd a thrigolion y gymdogaeth.

Bu pobl ardal Rossport yn brwydro yn erbyn cynllwyn Shell a Llywodraeth Iwerddon ers chwe blynedd. Carcharwyd pump o ddynion am gyfnod yn 2005 am atal gwaith ar y prosiect gan ennyn protestiadau cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae'r gwaith ar adeiladu'r burfa yn dal heb ei gychwyn. Ond mae Shell yn dal i fygwth ail-ddechrau ar ei ymosodiad ac mae Gwersyll Cefnogaeth rhyngwladol wedi'i sefydlu i helpu amddifyn pobl y fro.

Yn ystod y daith feiciau rhwng Merthyr a Rossport, bydd y garfan yn aros mewn nifer o drefi a phentrefi i godi ymwybyddiaeth am frwydrau'r ddwy gymuned. Y nod fydd dangos pa mor bwysig yw'r ymdrechion arbennig hynny i bwnc ehangach cynhesu byd-eang a newid hinsawdd a'r bygythiad i'r Ddaear gyfan.

► www.climatecampcymru.org.

*CYFEILLION Y DDAEAR YN BEIRNIADU CORFF CYNLLUNIO PWERUS*

# Yr IPC — 'Anemocrataidd ac anatebol'

**MAE'R system cynllunio yn effeithio ar bopeth sydd o'n cwmpas. Mae'n llunio ble rydym yn byw, ble rydym yn siopa, ble rydym yn gweithio a sut rydym yn cyrraedd yno.**

Ond mewn achlysur diweddar yng Nghymru, na chafodd fawr o sylw, cyhoeddwyd system newydd sy'n anemocrataidd, sy'n anheg ac sy'n methu â rhoi sylw dyladwy i newid hinsawdd.

Bwriad y Comisiwn Cynllunio Seilwaith (yr IPC) a lansiwyd yng Nghymru ar 9 Mawrth, o ganlyniad i Ddeddf Cynllunio 2008, yw cyflymu'r broses o gytuno i ac adeiladu prosiectau mawrion. Yng Nghymru, fe fydd ei gyfrifoldebau yn cynnwys prosiectau ynni mawr (dros 50 megawatt), porthladdoedd, rhai pibellau a chynlluniau storio nwy tanddaearol.

Dyw'r IPC ddim yn cael ei ethol a dyw e ddim 'chwaith yn atebol i Senedd San Steffan, ond bydd yn cymryd penderfyniadau a wnaed hyd yn hyn gan weinidogion yn unig. Golyga ddiwedd ar system yr ymchwiliadau cyhoeddus gan osod proses archwilio yn ei le sydd ond yn caniatau gwrandawiadau llawragored cyfyngedig.

Ni fydd hawl gan y cyhoedd i ddod â thystion gerbron neu i gynnal croesholi, ac nid oes ymrwymiad i ystyried unrhyw beth a ddywedir gan y cyhoedd. Ac yn wahanol i'r hen system, ble roedd awdurdod lleol yn gallu trefnu trafodaeth gyhoeddus o benderfyniad cynllunio, fe wneir yr ymgynghoriad hwn bellach gan y cynigydd – sy'n anhebygol o godi'r hyder sydd ei angen i ddenu pobl i fod yn rhan o benderfyniadau lleol pwysig.

Yn lansiad yr IPC, rhybuddiodd cynllunydd ar ran Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y gallai'r methiant i ddenu'r cyhoedd i'r broses arwain at anufudd-dod sifil.

**Gan GORDON JAMES**
**Cyfeillion y Ddaear Cymru**

Mae enghreifftiau o hyn eisoes wedi bod ym Merthyr Tudful gyda'r ymateb i sgandal safle glo brig Ffos-y-Fran. Gan fod 'na gynnig gerbron am losgydd gwastraff mawr i'r dref – a fyddai'n cael ei benderfynu gan yr IPC ac a fyddai'n tanseilio polisi Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol ar wastraff – ni ddylem synnu'n ormodol os ceir mwy o weithredu uniongyrchol o ganlyniad.

Yr elfen allweddol arall o'r Ddeddf Gynllunio yw drafftio 'Datganiadau Polisi Cenedlaethol' ar bynciau fel ynni, trafnidiaeth a gwastraff. Fe ddaw'r datganiadau polisi hyn yn brif ystyriaeth i'r IPC, a byddant yn fwy dylanwadol na Chynlluniau Datblygu Lleol neu Gynllun Gofodol Cymru.

Mae Cyfeillion y Ddaear yn cydnabod y gallai datganiadau o'r math helpu sicrhau'r penderfyniadau sydd eu hangen i gyrraedd diogelwch ynni ac economi carbon isel. Ond mae gwendidau'r system newydd mor ddifrifol fel ein bod wedi danfon llythyr manwl 14-tudalen i'r Ysgrifennydd Ynni a Newid Hinsawdd, yn rhybuddio y cymerir camau cyfreithiol os eir ymlaen â'r system.



**Jane Davidson AS yn annerch cyfarfod Cyfeillion y Ddaear ar ddyfodol cynllunio.**
LLUN: SIMON WILLIAMS

Gyda'r gwrthwynebiad i'r system newydd yn dod o sawl cyfeiriad, mae 'na gryn ansicrwydd sut aiff ymlaen. Gobaith Cyfeillion y Ddaear Cymru yw y gellir cytuno i welliannau fydd yn adfer atebolrwydd democrataidd, ac a fydd yn sicrhau y caiff penderfyniadau cynllunio chwarae'u rhan hanfodol i gyrraedd y toriadau allyriadau carbon y mae eu hangen mor ddifrifol arnom.

► Cysylltwch â Chyfeillion y Ddaear a'ch Aelod Seneddol: http://www.foe.co.uk/cymru/cymraeg/pwyso am newid/democratic_planning_23015.html

**FFOCWS ARBENNIG AR GYNLLUNIAU YNNI GWYRDD ...**

# Yn Sir Benfro, tyrbinau Cwm Arian yn addo rhoi hwb i bentrefi cefn gwlad ...

## ERTHYGL GAN CRIS TOMOS, CADEIRYDD CANOLFAN HERMON

**£10 MILIWN YN CAEL EU RHANNU RHWNG 22 CYMUNED LEDLED PRYDAIN I HYBU YNNI LLEOL — A THAIR OHONYNT YNG NGHYMRU**

**FE ddaeth newyddion da i brosiect cymunedol yn Sir Benfro sydd am weld cartrefi, ffermydd a busnesau lleol yn cael siawns o leihau eu hôl troed carbon.**

Mae prosiect Ynni Cwm Arian, yn ardal Hermon, Y Glog a Llanfyrnach, wedi cael cadarnhad ei fod yn un o 22 prosiect ar draws Prydain sy'n mynd i rannu £10,000,000 ar gyfer datblygu gweithgareddau cymunedol yn y maes lleihau carbon.



**Gweinidog Amgylcheddol Cymru yn cwrdd â chriw Prosiect Cwm Arian wedi'r cyhoeddiad o'r cymorth ariannol o £500,000: *Cefn o'r chwith* - Mike Parcell, Bill Davies, Daniel Blackburn, Vian Roberts, Jane Howells, Janet Roberts. *Blaen o'r chwith*: Cris Tomos, Jane Davidson AS, Lynn Davies.**

Mae'r cynllun yn cael ei ariannu gan y llywodraeth yn San Steffan o dan Adran Ynni a Newid Hinsawdd.

O fewn ardal Hermon, Y Glog a Llanfyrnach mae yna fwriad nawr i ddosbarthu dyfeisiadau darllen defnydd ynni i bob cartref am ddim — y gost arferol yw £25 — ac yna helpu trigolion, ffermwyr a phobol busnes i ddatblygu ffurfiau o leihau defnydd carbon.

Mae 'na gyfle i ffermwyr a busnesau gael cymorth wrth osod systemau ynni adnewyddol boed yn dyrbin dŵr, system solar, biomas neu dyrbin gwynt.

Mae Hermon, Y Glog a Llanfyrnach eisoes wedi cael arian i edrych ar godi 2 tyrbin gwynt a fydd yn eiddo i'r gymuned. Fe fydd yr elw o'r 2 tyrbin tua £200,000 y flwyddyn wrth werthu'r ynni i'r grid cenedlaethol.

Bydd yr elw'n dod 'nôl i gynnal gweithgareddau cymunedol a mentrau cymdeithasol. Un prosiect pendant yw chwilio am dir i godi gweithdai i bobol ifanc i ddechrau busnesau eu hun, gyda'r unedau'n eiddo i'r gymuned. Hefyd, prynu tir i godi tai fforddiadwy a fydd yn eiddo i'r gymuned.

Pwyllgor o'r gymuned bydd yn penderfynu i bwy i osod y tai fforddiadwy gan sicrhau rhent rhesymol i alluogi pobol ifanc i gynilo ar gyfer blaendal wrth brynu tŷ eu hun i'r dyfodol.

Fe fydd prosiect ynni Cwm Arian hefyd yn helpu sicrhau fod estyniad newydd yn cael ei godi ger Canolfan Gymunedol Hermon i gynnig gofod swyddfa a hefyd gofod neuadd newydd. Y bwriad yw cynnal cynadleddau a digwyddiadau yn ymwneud ag ynni adnewyddol.

O fewn y cynllun, fe fydd gofod llawr cyntaf ar gyfer cynnig gwelyau hostel a llety i hybu twristiaeth a chreu swyddi yn y gymuned. Fe fydd hyn oll yn creu swyddi newydd.

Bydd cyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu trefnu'n fuan i annog unigolion eraill i ymuno gyda'r fenter.

Y bwriad cychwynnol yw canolbwyntio ar ardal Hermon, Y Glog a Llanfyrnach ond yna, yn ystod y blynyddoedd nesaf, mae 'na fwriad i ledaenu'r gweithgaredd i gymunedau cyfagos. ☐

► **Manylion:**
**www.decc.gov.uk.**
**www.cwmarian.org.uk**

# Trydan dŵr yw dewis Cwm Clydach ...

**BU dathlu hefyd yng Nghwm Clydach sy'n cynnwys pentref Blaenclydach ger Tonypandy yn y Rhondda Fawr ar ôl i'r gymuned glywed eu bod nhw ymysg y rhai fydd yn gallu derbyn hyd at £500,000.**

**Yno, mae Prosiect Ynni Dŵr Cwmclydach yng nghyfnod olaf datblygiad gyda chaniatad cynllunio wedi'i roi i godi adeilad ar gyfer tyrbin dŵr ym Mharc Gwledig Cwmclydach.**

**Mae'r ffaith bod £500,000 ychwanegol ar gael yn golygu bod yr arian wrth law, bellach, i fynd ati i brynu a gosod y tyrbin cyntaf. Mae bwriad hefyd i brynu ail dyrbin ar gyfer lleoliad i gynhyrchu trydan yn nhref Tonypandy .**

**Ond mae hi wedi bod yn broses hir i baratoi'r cynlluniau technegol ac i ddelio â'r holl ofynion cynllunio ac amgylcheddol.**

**Comisiynwyd cwmni Hydro Generation Cyf mor bell yn ôl a 2005 gan Ymddiriedolaeth Datblygu Cymunedol Cwmclydach i baratoi cynllun i gynhyrchu trydan adnewyddol trwy ddefnyddio Nant Clydach.**

**Ond nawr mae'r freuddwyd yn cael ei gwireddu a bydd y ddau dyrbin yn cynhyrchu 144.7KW at ddefnydd y gymuned.**

► ***Mae'r prosiect yn hwb i gwm sydd wedi dioddef llawer o'r diwydiant glo yn y gorffennol. Yn 1905, lladdwyd 33 o lowyr yn nhanchwa Pwll y Cambrian a lladdwyd 31 arall yn yr un pwll ym 1965.***

## ... TAIR CYMUNED YN ENNILL HYD AT £500,000 YR UN

# Awel Aman Tawe yn ysu i'r llafnau ddechrau creu trydan

**OS cewch gyfle i gerdded i fyny ffordd Ochr y Waun ar y llethrau ar gyrrion Cwmllynfell, fe ddewch at gât sy'n datgan nad oes modd mynd ymlaen.**

Yno fe welwch beiriannau enfawr yn rhuo heibio y tu draw i gloddiau o bridd a gwastraff creigiog. Dyma fynediad i safle glo brig East Pit sy'n eiddo i gwmni Celtic Energy, olynydd balch Glo Prydain yn neheudir Cymru.

*Mae'r gât yn dweud y gwir mewn mwy nag un ystyr. Nid oes modd mynd ymlaen – nid ymlaen i fwynhau pleserau'r gweundir sy'n ymestyn draw i Waun Cae Gurwen, ac nid ymlaen i drin y Ddaear mewn ffordd mor niweidiol â'r safle glo brig hwn.*

Mae East Pit wedi ehangu'n ddiweddar i ddanfon cannoedd o filoedd mwy o dunelli o lo brwnt ar y cledrau i bwerdy Aberddawen lle caiff arllwys carbon deuocsid i'r awyr gan gynhesu'r Ddaear ac achosi newid hinsawdd.

Trowch eich cefn ar y gât, a cherddwch nôl lawr Ochr y Waun gan gyrraedd Heol Gwilym. Wedi pasio ffenestri gweigion siop gaeëdig *Hud a Lledrith,* lle doedd y naill na'r llall wedi gweithio, fe ddewch at siop wag arall gyda thŷ ynghlwm iddi.

Dyma swyddfa Awel Aman Tawe — o fewn cyrraedd sŵn cloddio ffyrnig East Pit. Dau fyd, dau ddyfodol, yn cyffwrdd â'i gilydd. Un gyda gât sydd ar gau; y llall gyda gât sy'n dechrau cael ei agor i batrwm gwahanol iawn o fyw.

*Menter elusennol yw Awel Aman Tawe sydd â'r nod o ariannu amrywiaeth o brosiectau cymunedol trwy gynhyrchu trydan glân o Fferm Wynt fechan ar Fynydd y Gwryd gerllaw.*

Rheolwr y prosiect dan Ymddiriedolwyr lleol yw Dan McCallum sy'n enedigol o Plymouth. Ar ôl graddio mewn hanes yn Rhydychen, a gweithio i Oxfam — gan gynnwys yn ngogledd Iraq — dewisodd Dan symud i hen wlad ei fam oedd yn hannu o'r Betws, Rhydaman. Ac o wneud hynny, daeth yn rhugl yn y Gymraeg oedd eisoes mor gyfarwydd iddo o'i wyliau teuluol ar lethrau Dyffryn Aman.

Yn wreiddiol, mae'r hyn sy'n digwydd yng nyffrynoedd



**Dan McCallum, rheolwr Prosiect Awel Aman Tawe**

Aman a Thawe Uchaf yn ffrwyth i anogaeth Uwch-Gynhadledd y Ddaear yn Rio de Janeiro yn 1992 ar i wledydd fynd ati i dorri ar eu hallyriadau carbon. Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yng Ngwaun Cae Gurwen yn ddiweddarach i drafod syniadau. Dyna ble cafodd Dan a'i gyfeillion gyfle i alw am 'Ffermydd Gwynt nid Glo Brig.'

*Cafwyd arian o San Steffan i drefnu blwyddyn o ymgynghoriad lleol ar gynllun i godi chwech o dyrbinau, ac yn 2001 cynhaliwyd refferendwm ar y pwnc ym mhentrefi'r ardal.*

"Doedd dim syniad gyda fi beth fyddai'r ymateb lleol," meddai Dan, "A dweud y gwir, roeddwn yn disgwyl colli. Ond fe ges i syrpreis."

Pleidleisiodd dros 48% o'r etholwyr, ac roedd mwyafrif clir o blaid cynllun y fferm wynt. Gyda chefnogaeth y gymuned, felly, aethpwyd ati i gyflwyno cynllun i Gyngor Castell-nedd Port Talbot yn 2004. Ond cafwyd siom. Gwrthodwyd y cynllun. Ac o fynd at Ymchwiliad, gwrthodwyd eto.

"Roeddwn i'n teimlo'n ddig iawn," meddai Dan, "Er r'on i'n gallu deall sefyllfa'r cynghorwyr, roedd yn glir bod bias yr ymchwiliad yn erbyn tyrbinau gwynt."

Felly, tociwyd yn sylweddol ar y cynllun, gan ofyn am ganiatad am ddim ond dau o dyrbinau. Gwrthodwyd y cais hwn hefyd gan y cyngor – ond cafwyd caniatad wrth wneud un apêl arall at Ymchwiliad.

*"Gwych! Caniatad!" meddai Dan, "Roedd hyn yn rhoi hygrededd i ni. Ers hynny, mae Awel Aman Tawe wedi ennill cytundeb i fod yn gyfrifol am gynorthwyo datblygu prosiectau ynni cymunedol tebyg dros dde Cymru gyfan dan Lywodraeth Cynulliad Cymru."*

Roedd Awel Aman Tawe eisoes wedi ennill sylw eang iawn am eu gwaith gan gael ei chyflwyno fel esiampl dda yn 2002 yn Uwch-gynhadledd Johannesburg ar Ddatblygu Cynaliadwy. Bu canmol ar eu gwaith gan Swyddfa Dirprwy Brif Weinidog San Steffan yn 2005, a chyhoeddwyd eu Llyfr Cyfarwyddiadau ar sut i drefnu ymghynghoriad lleol gan Adran Ddiwydiant a Masnach San Steffan.

Yn ystod y frwydr hir hon, bu'r fenter yn gosod paneli haul, offer geothermal a thwrbeini bach a helpu tua 2,000 o dai arbed ynni.

*"Roedd llawer o amheuon amdanom yn y gorffennol," meddai Dan, "Ond mae mwy o gefnogaeth nawr. Mae pobl wedi gweld ein bod ni'n gweithio'n galed yn yr ardal."*

Ac mae'r cyhoeddiad mwyaf diweddar bod £500,000 ar gael i'r fenter yn hwb anferth arall.

Ond – beth am y tyrbinau gwynt? Mae rhwystredigaeth yn rhan anatod o'r gwaith arloesol hwn, ond gobaith Dan yw y bydd y gwaith adeiladu ar gerdded erbyn Haf 2011. Yr elw ariannol i'r gymuned fydd tua £2-300,000 wrth werthu'r trydan glân i'r grid cenedlaethol gan greu swyddi trwy sefydlu caffi lleol, gardd gymunedol, canolfan bio-diesel ac ati.

*Ond yr elw mawr arall fydd gwthio'r gât ymhellach ar agor i ffordd o fyw fydd yn defnyddio ynni adnewyddol — yn lle tanwydd carbon, niweidiol-i'r-Ddaear, o safleoedd glo brig brwnt fel East Pit.* ☐

► **Mwy: www.awelamantawe.org.uk**

# Daear-iadur Y Papur Gwyrdd



**Beth sy' 'mlaen yng Nghymru i warchod y byd?**

## CROESO I DDYDDIAU AGORED LAMMAS

**MAE pentref effaith isel Lammas yn Sir Benfro yn lansio cyfres o ddyddiau agored ar Ddydd Sadwrn, 10 Ebrill, gyda'r nod o ddenu pobl leol yn arbennig i ymweld â'r safle.**

Gwahoddir pobl sydd eisiau dysgu am y datblygiad pwysig hwn i ddod i faes parcio Pentref Lammas erbyn 2 o'r gloch ar brynhawniau Sadwrn, 10 Ebrill, 8 Mai, a 5 Mehefin. Er mwyn wynebu costau, codir £5 am bob ymwelydd, gyda phlant dan 14 yn cael mynediad am ddim.

Mae'r digwyddiadau'n adlewyrchu bwriad hyrwyddwyr y datblygiad arloesol a chyffroes hwn o fod yn rhan o'r gymuned Gymreig a Chymraeg yn ardal pentref Glandŵr sydd ger Crymych.

Trefnir i bartïon gael eu harwain o gwmpas y safle i weld y gwaith adeiladu sy'n mynd ymlaen. Nod Lammas yw creu pentref o ryw 9 cartref gydag adeiladau fydd yn asio a'r dirwedd ac na fydd yn niweidio'r amgylchfyd. Bydd y trigolion yn dilyn bywydau syml gyda galwedigaethau fydd mewn cytgord â byd natur



**Ar lethrau Tir y Gafel, mae adeiladau hynod ddiddorol fel 'taen nhw'n tyfu o'r tir. Mwy o wybodaeth: www.lammas.org.uk.**

## BWRLWM MOELYCI

**MAE amrywiaeth o gyrsiau diddorol yn cael eu cynnal yng nghanolfan amgylcheddol fyrlymus Moelyci ger Tregarth, Bangor. Dyma rai o gyrsiau Ebrill:**

**Adnabod Adar y Gwanwyn** 8, 15, 22, 29 Ebrill, 9 -1yp: Pedair sesiwn hanner diwrnod i ddatblygu sgiliau gwylio adar a dysgu am adar mewn cynefinoedd gwahanol. Cynhelir rhai o'r sesiynau ar safleoedd eraill yn yr ardal. Trefnir rhannu cludiant. £30 y sesiwn. Gyda'r ecolegydd John Harold. Rhaid cadw lle.

**Diwrnod Gwirfoddoli Coed Ffrwyth 18 Ebrill 10-4yp**: Dewch i helpu rhoi sylw tyner i'n coed ffrwythau tra'n dysgu mwy am dyfu coed ffrwythau yng ngogledd Cymru. Rhad ac am ddim.

**Crefft siwgr 24 Ebrill 10-4yp**: Sut i greu addurniadau o siwgr — dail, hadau a ffrwythau tymhorol. Bydd angen dwylo deheuig! Oedolion yn unig. £45 Gyda Pat Thomas. Angen cadw lle.

**Cyflwyniad i Gadw Gwenyn 25 Ebrill 9.30 – 4yp**: Edrych ar hanfodion cadw gwenyn, adeiladu cychod gwenyn, rheoli gwenyn, lle i gael gwenyn ac offer, a phwysigrwydd gwenyn yn yr amgylchedd. Gyda Jonathon Garratt — Arolygwr Gwenyn tymhorol lleol. £45

**Blodau Gwyllt y Gwanwyn 25 Ebrill, 2 - 4yp**: Taith gerdded hawdd i edrych am flodau'r gwanwyn gyda John Harold. Dim angen cadw lle. Am ddim – ond croesewir rhoddion.


## HYSBYSEBU Y PAPUR GWYRDD

**Am fanylion hysbysebu yn Y Papur Gwyrdd, ffoniwch 01792 798162 neu ebostiwch at: ypapurgwyrdd1@btinternet.com. Holwch am ein *Carden Costau Hysbysebion*.**


## GARDD FOTANEG

OS am flas o wledydd Môr y Canoldir heb deithio yno, yr Ardd Fotaneg Genedlaethol yn Llanarthne, Shir Gâr, yw'r lle i ymweld ag e ar benwythnos 24 - 25 Ebrill. Ar y dyddiau hynny, cynhelir Ffair Crefftau a Bwyd yno fydd yn adlewyrchu traddodiadau'r ardal heulog honno. Ac, wrth gwrs, gellwch brofi tipyn o gynhesrwydd y Canoldir yn y Tŷ Gwydr Mawr sydd â myrdd o blanhigion deniadol.

Ar benwythnos 2-3 Mai, bydd yr arlwy yn yr Ardd yn llawer mwy cartrefol wrth i Ŵyl Fwyd Gorllewin Cymru gael ei chynnal yno gyda llu o stondinau'n gwegian dan bwysau bwydydd blasus y fro.

## CYRSIAU DENMARK

MAE llawer o ddigwyddiadau ysbrydoledig ar gael yng Nghanolfan Gadwraeth Ffarm Denmark sydd ger Betws Bledrws yn ardal Llanbedr Pont Steffan. Dyma gyrsiau mis Ebrill:

**Hau'r Hadau – Paratoi Grawn a Bwyd y Gwanwyn**: Dydd Mawrth, 13 Ebrill, 10yb-4yp, £30.

**Cadw 'Yr Egin a'r Gwreiddyn' – Llysiau Meddyginiaethol y Gwanwyn**: Dydd Mawrth, 27 Ebrill, 10yb-4yp, £30.

**Cadw / Annog Cyfranogaeth Gymunedol mewn Prosiectau Cynaliadwy**: Dydd Iau, 15 Ebrill, 9.30yb-4yp, £10.

**► Ffoniwch 01570 493358.**

## MANNAU GWYLLT

AR Ffarm Llwynbwch ger Llandeilo, ar Sadwrn, 10 Ebrill, a Sul, 11 Ebrill, cynhelir cwrs dan y teitl Cerdded yn y Mannau Gwyllt dan arweiniad Sue Weaver a Lucy Wallace.

**► Ffoniwch 01550 777402.**

## BYWYD BRODOROL

YNG Nghanolfan Amgylcheddol Abertawe ar nos Fercher, 13 Ebrill, rhoddir darlith gyda lluniau ar ymlusgiaid ac anifeiliaid tir a dŵr brodorol gan Peter Hill.

**► Ffoniwch 01792 480200.**

## PERMADDIWYLLIANT

DAN nawdd Canolfan Dysgu Gydol Oes Prifysgol Caerdydd, dechreuir ar gwrs ar Ddylunio Permaddiwylliant. Gan gychwyn ar nos Fercher, 5 Mai, bydd y cwrs yn parhau tan 10 Gorffennaf.

**► Ffoniwch 02920 870000.**

**► Croesawn erthyglau, hysbysebion, lluniau, ac eitemau newyddion i'r** Papur Gwyrdd. **Ebostiwch at: ypapurgwyrdd1@btinternet.com. Ffôn: 01792 798162. Cyfeiriad: 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX. A chofiwch ymweld â'n gwefan : www.ypapurgwyrdd.com**

# Y byd a'r aelwyd

Golwg 'cartrefol' ar yr ymgyrch 'global'

## 'DAI' WEDI MYND — A THRYDAN GLAN, DI-GARBON, WEDI CYRRAEDD

**BLOEDDIWCH ar led: dyw cyhoeddwyr cylchgrawn** Y Papur Gwyrdd **ddim bellach yn berchenogion ar glamp o Daihatsu 4-Trak. Ond ychwanegwch — yn dawelach — eu bod yn gyfrifol trwy hynny am *ychwanegu* at allyriadau $CO_2$ y Ddaear.**

Beth? *Ychwanegu*? Sut hynny? Ydy hyn yn dangos twyll arall gan wyddonwyr y Cenhedloedd Unedig sy'n chwalu eu holl honiadau gwirion ynglyn â Chynhesu Byd-eang? Wel, ddim cweit. Ond gadewch i hynny aros tan nes at waelod y golofn a chanolbwyntio yn y cyfamser at lwyddiant di-gamsyniol gennym.

Bydd selogion **Y Byd a'r Aelwyd** yn gwybod ein bod fel teulu'n gwneud ein gorau i wneud i fyny am flynyddoedd o fyw fel Gorllewinwyr hapus a normal nad oedd gennym fawr o ots am achosi difrod i'r Ddaear. Yn sicr, heb ddigon o ots i holi o ddifrif amdano.

Yn y broses o newid, rydym, e.e., wedi dechrau tyfu ychydig o lysiau a ffrwythau yn yr ardd gefn, wedi newid hen fwyler gwres canolog i un newydd sbon sy'n achosi llai o allyriadau $CO_2$ (gan golli £500 gan Lywodraeth y Cynulliad oherwydd ein brwdfrydedd!), ac wedi cael gwared â hen ffenestr liw, bren, ddrafftiog gan roi un newydd sawl-haen, uPVC clyd yn ei lle.

Ond rydym bellach wedi cymryd cam ychwanegol sydd wedi'n synnu ni ein hunain: rydyn ni wedi gwahardd trydan o ffynonellau carbon o'n tŷ ni. Yn llwyr.

Rhag ofn i chi gamddeall, dyw hyn ddim yn golygu ein bod yn sefyll ar stepen y drws gyda brws yn atal foltiau trydan sy'n dod o lo brwnt ac olew rhag llifo i'n hystafelloedd. Dim byd mor ddramatig. Dim gwrhydri o gwbl. Dim ond gair bach â gŵr yn Chippenham.

Nid unrhyw ŵr, cofiwch. Un o dîm bach cwmni o'r enw Good Energy. Canodd y ffôn. Atebodd y gŵr. Dywedon ni ein bod yn dymuno gadael un o gewri'r byd ynni er mwyn cael trydan o ffynonellau di-garbon, adnewyddol, nad yw'n cyfrannu at ddinistr y Ddaear. Ac o fewn pythefnos, dyna a wnaed.

Dyw'r trydan ddim yn wahanol. Dyw'r golau ddim yn llai disglaer. Dyw'r gwres ddim yn llai cynnes. Yn wir, efallai ychydig yn fwy disglaer, yn fwy … wel, na, gwell i ni beidio mynd mor bell â hynny. Ond, wir, mae'n deimlad da gwybod y bydd ein biliau trydan o hyn ymlaen yn cynnal Twrbeini Gwynt, Paneli Haul ac Ynni Môr pan ddaw. Hynny yn lle ariannu hacrwch a dinistr Glo Brig a Phyllau Glo, diwydiant olew sy'n yn rhwygo'r Ddaear yn fwy a mwy gwallgof, a nwy mae angen sugno llygredd ohono.

Bydd ein biliau'n uwch, ond byddant yn disgyn wrth i fwy a mwy o bobl droi cefn ar danwyddau 'rhad' sydd wedi profi mor gostus. Ac mae'r elw o ran lleihau allyriadau $CO_2$ yn anferth — elw sydd mor bwysig i ddyfodol ein plant a'u plant.

Felly, cam ymlaen go fawr a phleserus. Beth, felly, am y broblem gyda Dai y Daihatsu? Fel y cofiwch, roedd Dai wedi troi'n llysieuol yn ddiweddar, gan ddefnyddio bio-diesel o gwmni Sundance yn Nhŷ Croes, Rhydaman. Roedd ein Daihatsu 4-Trak mawr yn niwtral o ran ei garbon.

Ond, beth am wrth ei werthu? Yn anffodus, bu raid esbonio wrth Sundance na fyddai angen eu cyflenwadau o bio-diesel iachusol arnom mwyach. Ac yn waeth na hynny, nad oedd perchennog newydd Dai ag awydd i barhau a'i ddiet llysieuol. Nôl at 'y pwmpiau' diesel fyddai Dai'n gorfod troi. A dyna ychwanegiad at allyriadau $CO_2$ – am i ni ei werthu.

Fel 'na mae, medd Max Boyce: chi ddim yn gallu eu hennill nhw i gyd! Trio, hwnna ydy o! A, diawcs, ydyn, ry'n ni'n siwr bod y cyfrifiadur 'ma'n gweithio'n chwimach gyda'n trydan glân …

## DIRTY OIL



Ffilm ysgytwol am ddifrod y diwydiant olew tywod i amgylchedd a phobloedd brodorol Alberta, Canada … a'r Ddaear gyfan.

Mae cenedl y Beaver Lake Cree yn dwyn achos cyfreithiol yn erbyn llywodraethau Alberta a Chanada oherwydd anfadwaith y cwmniau olew ...

HOLWCH AMDANI!

**Cyfarwyddwr: Leslie Iwerks**
**Sylwebaeth: Naeve Campbell**

**CAFWYD PREMIER YM MIS MAWRTH**

**FFILM A GEFNOGWYD GAN FANC Y CO-OP**


### AR WERTH

# TŶ A GERDDI ORGANIG

**Cartref traddodiadol yn sefyll ar wahân ar hanner erw o erddi aeddfed sy'n cael eu gweithio yn ôl egwyddorion organig.**

Tŷ gwydr a pholitwnnel mawr; llwyni ffrwythau meddal, coed ffrwythau a gwlâu codi.
Mae'r anedd led-wledig hon â 2 stafell wely wedi cadw llawer o'i nodweddion gwreiddiol. Gwres canolog nwy.

**Yn agos i Abertawe, Bro Gŵyr, y llwybr beicio i Fae Abertawe, ysgol gynradd a'r M4. Mae gan y tŷ a'r ardd botensial mawr.**

**£265,000.**

I gael mwy o fanylion, e-bostiwch nel.james@virgin.net , neu ffoniwch 01792 873838.


## Y Papur Gwyrdd - yn eich siop leol neu drwy'r post

Mae'r **Papur Gwyrdd** ar werth gan lyfrwerthwyr da led-led Cymru. Ond os nad yw ar gael yn eich ardal chi, mae croeso i chi danysgrifio i'w dderbyn trwy'r post. Llanwch y ffurflen isod a'i danfon gyda'ch taliad atom:

ENW: ……………………………………………………………..

CYFEIRIAD: ………………………………………………..

……………………………………. Côd Post……………...

Amgaeaf siec at '**Y Papur Gwyrdd**' am ………………..
(Unigolion: £6 am 6 rhifyn. Croesewir cyfraniadau i gynorthwyo gyda chostau postio. Sefydliadau: £8.50).

Danfonwch y ffurflen hon gyda'ch siec at:
Y Papur Gwyrdd, 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX

**EDRYCHWN YMLAEN AT EICH CROESAWU FEL TANYSGRIFIWR I'R PAPUR GWYRDD**

# Mynnwch gwsg ym mynwes natur






... gan gynnwys i'r babi

# Matresi Organig gan Abaca

Abaca, Uned 1,
Parc Busnes Tŷ Croes,
Rhydaman,
Sir Gaerfyrddin SA18 3RZ

**01269 598491**
**info@abacaorganic.co.uk**

